



TAG UG/UWCH

2000N30-1A

**DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 –
PRYNHAWN**

CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

Llyfryn Cerddi

Y MEIRWON

**Bydd dyn wedi troi'r hanner-cant yn gweld
yn lled glir**

**Y bobl a'r cynefin a foldiodd ei fywyd e',
A'r rhaffau dur a'm deil dynnaf wrthynt hwy
Yw'r beddau mewn dwy fynwent yn un o
bentrefi'r De.**

**Wrth yrru ar feisiglau wedi eu lladrata o'r
sgrap**

**A chwarae Rygbi dros Gymru â phledrenni
moch,**

**Ni freuddwydiais y cawn glywed am ddau
o'r cyfoedion hyn**

**Yn chwydu eu hysgyfaint i fwced yn fudr
goch.**

(Trowch y dudalen)

3

**Ein cymdogion, teulu o Ferthyr Tydfil
oeddent hwy,
'Y Merthyron' oedd yr enw arnynt gennym
ni,
Saethai peswch pump ohonynt, yn eu tro,
dros berth yr ardd
I dorri ar ein hysgwrs ac i dywyllu ein sbri.**

**Sleifiem i'r parlyrau Beiblaidd i sbïo yn syn
Ar olog o gnawd yn yr arch, ac ar ludw o
lais;
Yno y dysgasom uwch cloriau wedi eu
sgriwio cyn eu pryd
Golectau gwrthryfel coch a litanïau trais.**

(Trowch y dudalen)

4

**Nid yr angau a gerdd yn naturiol fel
ceidwad cell
Â rhybudd yn sŵn cloncian ei allweddi
llaith,
Ond y llewpart diwydiannol a naid yn
sydyn slei,
O ganol dŵr a tân, ar wŷr wrth eu gwaith.**

**Yr angau hwteraid: yr angau llychlyd,
myglyd, meddw,
Yr angau â chanddo arswyd tynghedfen
las;
Trôi tanchwa a llif-pwll ni yn anwariaid,
dro,
Yn ymladd â phwerau catastroffig,
cyntefig, cas.**

(Trowch y dudalen)

**Gwagedd dewrfud â llond dwrn o arian y
gwaed,
A bwcedaid o angau yn atgo tan ddiwedd
oes,
Yn cario glo, torri coed-tân a dodî'r ardd
Ac yn darllen yn amlach hanes dioddefaint
Y Groes.**

**Gosodwn Ddydd Sul y Blodau ar eu
beddau bwys
O rosynnau silicotig a lili mor welw â'r
nwy,
A chasglu rhwng y cerrig annhymig a
rhwng yr anaeddfed gwrw
Yr hen regfeydd a'r cabledau yn eu
hangladdau hwy.**

Diflannodd yr Wtopia oddi ar gopa

Gellionnen,

Y ddynoliaeth haniaethol, y byd

diddosbarth a di-ffin;

Ac nid oes a erys heddiw ar waelod y cof

Ond teulu a chymdogaeth, aberth a

dioddefaint dyn.

Gwenallt

YMA Y MAE FY LLE

**Fel, yn annileadwy, y nodir
 Delw y cyntaf un a welir
 Ar fodolaeth cywion gwyddau,
 Felly y mae'r llethrau hyn
 Sy'n esgyn fry, i fyny
 Wedi'u marcio ynof finnau.**

**Yma, yn y mawnogydd, y mae fy lle,
 Yn y manau llaith, y corsydd
 Rhwng esgeiriau hir y creigiau
 Ymysg y meini llwydion yma sydd
 Fel llygadau'r cynfyd.**

**Yma, yn y gwair gwydyn, y mae fy lle,
 Yn nhrybestod llechi gleision
 A ddarniwyd, yn ddethau, â ffrwydron
 A'u tynnu i fyny o berfeddion y ddaear
 hen.**

(Trowch y dudalen)

**Yma y mae fy lle, yng ngarwedd yr
ucheldir**

Lle mae'r gigfran a'r gylfinir,

A'r defaid – eneidiau cyfeiliorn i gyd;

Pethau hen, Cymraeg, elfennig,

Pethau sydd – a hynny yn ddiddarfod –

Hyd lefelau dyfnaf fy mod.

Gwyn Thomas

PRESELI

**Mur fy mebyd, Foel Drigarn, Carn Gyfrwy,
Tal Mynydd,
Wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn.
A'm llawr o'r Witwg i'r Wern ac i lawr i'r Efail
Lle tasgodd y gwreichion sydd yn hŷn na
harn.**

**Ac ar glosydd, ar aelwydydd fy mhobl—
Hil y gwynt a'r glaw a'r niwl a'r gelaets a'r
grug,
Yn ymgodymu â daear ac wybren ac yn
cario
Ac yn estyn yr haul i'r plant, o'u plyg.**

**Cof ac arwydd, medel ar lethr eu cymydog.
Pedair gwanaf o'r ceirch yn cwympto i'w cais,
Ac un cwrs cyflym, ac wrth laesu eu cefnau
Chwarddiad cawraidd i'r cwmwl, un llef
pedwar llais.**

(Trowch y dudalen)

**Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri,
fy nghrefydd,
Unig falm i fyd, ei chenhadaeth, ei her,
Perl yr anfeidrol awr yn wystl gan amser,
Gobaith yr yrfa faith ar y drofa fer.**

**Hon oedd fy ffenestr, y cynaeafu a'r
cneifio.**

**Mi welais drefn yn fy mhalas draw.
Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest
ddiffenestr.**

**Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y
ffynnon rhag y baw.**

Waldo Williams

SUL Y MAMAU YN GREENHAM, 1984

**Cerdd hir o allgaredd yw.
Bwrw eira a dynion glas a gwyrdd,
brwydro yn erbyn y symbylau
a chwaeroliaeth yn chwarae â thân,
yn creu anheddau
o brennau a blancedi.**

Ac o'n blaen Y Ffens.

**Hon yw'r ffordd newydd,
y cynfyd a'r creu
a'n dwylo ar wifren
yn ei thyneru;
chwarae tŷ bach
mewn cylch.**

**Sgwrsio a chanu,
creu a chrio,
cadw tŷ di-do.**

(Trowch y dudalen)

Saffrwm yn codi;

**cennin Pedr o Gymru'n blodeuo
o dan draed,
sgarmesoedd ganol nos,
eiddo'n sarn.**

**Cychwyn eto fory,
mwy'n cyrraedd,
codi calon.**

**Cerdd a allai fynd ymlaen drwy'n bywyd
ydi hon
a wnaeth neb mo'i sgwennu,
perthyn i bawb 'wna
fel y comin
ar erchwyn y didangnef
yn Greenham.**

Menna Elfyn

(Trowch y dudalen)

GWENLLIAN

**Di-lef yw tywod Lafan
a, rhagor, mud yw'r gro mân.
Di-iaith, fel marwolaeth dau,
yw tyniad pell y tonnau
ar y clyw. Tawel yw'r clai
a mynwent yw dŵr Menai.**

**Wynedd hen, ddi-wên, ddi-wg,
ddi-weryd tan hedd iorwg
a'i henfor cul heb frig gwyn
na chraig i ddal ei chregyn,
heb wybod wylo baban,
heb sgwrs a heb suo gân.**

**Hi, wyfyn, sy'n amddifad
o orwel hon, heb hawl ar wlad;
di-grud yw ei geiriau hi,
di-aelwyd yw ei holi,
diyfory yw hi'r gowlaid frau,
anllafar ei hunllefau.**

(Trowch y dudalen)

**Distawrwydd didosturi
sy' yma'n siôl ar ei hôl hi.
Nid oes rhag ei hoes o gur
un gesail iddi'n gysur
yn yr hwyr. Ni chlyw'n ei rhaid
ei chenedl un ochenaid.**

**Ond pan wylaf, daw Lafan
i grio'r môr drwy'r gro mân.
l'w henw, cwyd llanw'r llais
o fawl wedi'r holl falais
a thrwy hyn, daw hi o'i thrai
i mewn dros dywod Menai.**

Myrddin ap Dafydd

**BAEUFORT, BLAENAU GWENT, MEWN
GWYRDD**

**Mae capel Carmel wedi cau
a boddi mae y beddau
mewn môr o ddail tafol,
tonnau emrallt yn addo storom
rhwng ynysoedd y cerrig llonydd;
a chwifio'n fyw mae meini'r meirw...**

**Yma mae'r Gymraeg yn llwyd,
yn gen i gyd, angerdd angof
ganrif a hanner yn ôl
yn naddion ar y meini,
sy'n nofio fel cyrcs
ar gerrynt y gwyrddni.**

**Rhythu drostynt mae ffenestri Carmel,
llygaid briw sy'n llawn brain
mewn siwtiau syber,
yn gwâdd brain eraill
at nythfa'r gwatwarwyr,
a'u crawcian yn darogan glaw...**

**Yna'n ddisymwth, daw'r storom
i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio;
tu ôl i'r penglog rhwth o gapel
mae festri'r cefn dal ar waith,
ac mae'i ddrws yn clepio'n 'gored
gan chwythu coetsus a welingtons
yn gawod o liw rhwng meini'r meirw.
Mae'n bwrw'n gynt ac yn gynt,
ond deuant o hyd, yn bonchos dayglo,
eu traed bach yn daranau,
eu lleisiau'n diasbedain rhwng y beddau,
a'u Cymraeg Ysgol Feithrin fel mellt yn y
llwydwyll... !**

(Trowch y dudalen)

**Mae'r meirw a'r heniaith yn bwydo'r tir
ac mae'r iaith yn wyrdd, fel y fynwent ir...**

Ifor ap Glyn